**Grŵp Trawsbleidiol ar Hinsawdd, Natur a Llesiant**
**Cross Party Group on Climate, Nature and Wellbeing**

17:00 – 18:00
10.07.2023

Cyfarfod rhithwir dros Zoom
Virtual meeting over Zoom

1. Croeso a chyflwyniad
Welcome and introduction
Delyth Jewell AS/MS

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Minutes of the last meeting
Delyth Jewell AS/MS

3. Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

4. Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru
Youth Climate Ambassadors for Wales

5. Trafodaeth grŵp a chyflwyno gwaith diweddar
Group discussion and presentation of recent work

6. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf
Any other business and date of next meeting
Delyth Jewell AS/MS

**Yn bresennol:** Antonia Fabian (AF), Caitlyn, Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru (C), Dan Rose (DR), Delun Gibby (DG), Gwenda Owen (GO), Helen Matthews (HM), Ian Thomas (IT), Judith Musker Turner (JMT), Kathryn Speedy (KS), Kevin (K), Laura Haig (LH), Lucy Sutherland (LS), Madelaine Phillips (MP), Martin Burgess (MB), Molly Hucker (MH), Ollie John (OJ), Phoebe Nicklin (PN), Will (W)

**Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol:** Delyth Jewell AS (DJ), Ryland Doyle (RD) – ar ran Mike Hedges AS

**Ymddiheuriadau:** Heledd Fychan AS, Janet Finch Saunders AS, Mike Hedges AS, Peredur Owen Griffiths AS

**Croeso a chyflwyniad / Welcome and introduction – Delyth Jewell AS**
Croesawodd DJ y grwpiau. Trafododd y trefniadau ymarferol ar gyfer y cyfarfod, ac eglurodd bwrpas y grŵp trawsbleidiol.

Cyflwynodd C ei hun fel Caitlin o Lysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru.

Cyflwynodd PN ei hun fel ymchwilydd o Brifysgol Caerdydd sy'n edrych ar sut mae mannau gwyrdd yn effeithio ar lesiant.
Cyflwynodd HM ei hun fel seiciatrydd, aelod bwrdd ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac aelod bwrdd ar gyfer Tŷ Hafan.

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru / National Botanic Garden of Wales**
Croesawodd DJ LS o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac fe'i gwahoddodd i siarad.

Cyflwyniad gan LS:
- Sefydlwyd y gerddi botaneg cenedlaethol fel gerddi apothecari yn y 1500au.
- Nod y gerddi bellach yw gwella llesiant dynol mewn cyd-destunau cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol.
- Yn ôl cyfrifiadau a wnaed fel rhan o asesiad ecosystem cenedlaethol, gall byw gyda golygfeydd rheolaidd o fannau gwyrdd ddod â buddion iechyd gwerth tua £300 y person y flwyddyn.
- Roedd Adroddiad Cronfa'r Brenin yn 2016 yn cynnwys tystiolaeth ynghylch effaith gadarnhaol gerddi a garddio ar iechyd.
- Mae gan y gerddi 4 prif thema: achub planhigion a ffyngau, achub peillwyr, cadwraeth ryngwladol, a gwaith ymchwil a gwyddoniaeth a chymdeithas.
- Am y 10 mlynedd diwethaf, mae staff y gerddi wedi bod yn gweithio i greu a chyflwyno rhaglen iechyd a llesiant, gan weithio gydag oddeutu 200 o wirfoddolwyr a rhwng 9,000 ac 11,000 o aelodau er mwyn cynnal cysylltiadau cryf o fewn y Gymru wledig.
- Mae prosiect Caru Natur Cymru yn ymwneud ag integreiddio a gwella llesiant pobl, bioamrywiaeth a'r amgylchedd. Roedd rhywfaint o'r gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y prosiect yn deillio o ragnodi cymdeithasol.
- Rhan greiddiol o'r prosiect oedd creu seilwaith gwyrdd ar 40 o safleoedd o fewn ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Fel rhan o'r prosiect, yn ystod y cyfnod COVID, anfonwyd pecynnau tyfu at bobl, i'w galluogi i dyfu planhigion gartref cyn eu dychwelyd i'r gerddi. Yn dilyn hynny, cyflwynodd y gerddi y planhigion i safle'r bwrdd iechyd.
- Cafodd y prosiect ei ehangu, gan sicrhau cyfleoedd i gydweithio â mwy o garfannau cleifion.
- Mae ffrydiau byw o gamerâu bywyd gwyllt ar safle gwarchodfa natur y gerddi hefyd wedi'u gosod mewn ysbytai er mwyn codi hwyliau pobl.

Agorodd DJ y llawr i gwestiynau a sylwadau. Eglurodd LS fod y data sy'n nodi y gall byw ger mannau gwyrdd arbed £300 y pen yn deillio o'r Asesiad Ecosystem Cenedlaethol.

Gofynnodd JMT am ragor o wybodaeth am rôl y celfyddydau yn y prosiect hwn. Dywedodd LS nad oedd cymuned y celfyddydau a diwylliant yn cymryd rhan ar hyn o bryd, ond nododd fod y gerddi yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio. Yn ôl HM, er nad oes cysylltiadau ffurfiol ar hyn o bryd, mae cysylltiadau anffurfiol wedi'u creu gyda grwpiau lleol o artistiaid. Nododd hefyd fod gan yr ardd fotaneg grwpiau brodwaith a gludwaith ei hun.

Soniodd JMT fod Cyngor Celfyddydau Cymru, fel rhan o'i waith partneriaeth â sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y rhaglen Natur Greadigol, yn buddsoddi

mewn elfen newydd o'i raglen celfyddydau ac iechyd er mwyn cynnwys byd natur. Mae hefyd yn lansio ail rownd ei gymrodoriaeth gysylltiedig, sef Cymru'r Dyfodol.

Dywedodd PN eu bod wedi creu recordiadau o flodau gwyllt yr hoffent eu rhoi mewn ysbytai. Gofynnodd pa bartneriaid eraill y mae'r gerddi yn gweithio â nhw. Dywedodd LS mai'r partneriaid hyn oedd y bwrdd iechyd, y brifysgol ac amrywiaeth o sefydliadau eraill, gan gynnwys sefydliadau iechyd meddwl. Mae cyfraniad y gwirfoddolwyr yn deillio'n bennaf o bresgripsiynu cymdeithasol. Nododd HM mai nod y prosiect yw bod cymunedau yn cymryd perchnogaeth o'r mannau gwyrdd er mwyn eu cynnal.

**Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru / Youth Climate Ambassadors for Wales**
Mewn digwyddiad y tu allan i'r Senedd ar 6 Gorffennaf, lansiodd Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid Cymru ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth y DU i gyfreithloni statws ffoaduriaid hinsawdd. Anogodd C aelodau'r grŵp i rannu'r ddeiseb hon o fewn eu rhwydweithiau ac ar eu platfformau.

Tynnodd DJ sylw at bwysigrwydd chwyddo lleisiau pobl ifanc, gan y bydd newid hinsawdd yn cael effaith anghymesur arnynt.

**Trafodaeth grŵp a chyflwyno gwaith diweddar / Group discussion and presentation of recent work**
Dywedodd GO wrth y grŵp fod Prifysgol Caerdydd yn cynnal prosiect ymchwil ar deithio llesol a phobl ifanc rhwng 12 a 16 oed. Mae hyn yn cynnwys arolygon ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni.

Tynnodd IT sylw at rai cyrsiau NVQ lefel 2 a gynhelir gan Goleg y Mynyddoedd Duon ar arddwriaeth adfywiol a phrysgoedio.

Nododd DJ yr ymddiheuriadau a gafwyd ar gyfer y cyfarfod.

Dywedodd OJ fod Rhiannon Hawkins wedi cynnal cynhadledd addysg hinsawdd yn ddiweddar gyda 13 o ysgolion, a'i bod yn awyddus i rannu'r canfyddiadau gyda'r grŵp yn y cyfarfod nesaf.

Holodd MH a oedd Jeremy Miles AS yn bwriadu annerch y grŵp. Dywedodd OJ nad oedd dyddiad wedi'i bennu, ac y byddai'r grŵp yn ceisio paratoi sesiwn friffio ar gyfer ei swyddfa ynghylch y gwaith a wneir â phobl ifanc.

Gofynnodd MH a fyddai'n iawn i gydweithwyr ymuno â'r grŵp. Dywedodd AF y byddai'r grŵp yn croesawu aelodau newydd. Gofynnodd iddynt gofrestru gan ddefnyddio'r ffurflen ymuno a fydd yn cael ei dosbarthu gyda dyddiad y cyfarfod nesaf.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf / Any other business and date of next meeting**
Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau ar ôl toriad yr haf. Nid oedd unrhyw fater arall.